# Cofrestrfa Tir EF

## Cynorthwyo i warchod eich hunan rhag twyll eiddo – cadwch eich manylion cyswllt yn gyfoes

Hydref 2023



# Allech chi fod mewn perygl o dwyll eiddo?

## Os ydych yn berchen ar eiddo, gallai fod yn darged i dwyllwyr, yn arbennig os nad ydych yn byw yno. Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth bwysig gan Gofrestrfa Tir EF am yr hyn y gallwch ei wneud i warchod eich eiddo.

**Gwarchod eich eiddo**
Eich eiddo yw eich ased mwyaf gwerthfawr, fwy na thebyg. Oherwydd hynny, gall fod yn darged deniadol i dwyllwyr, sef y rheswm y dylech wneud yr hyn y gallwch i warchod eich perchnogaeth.

Asiantaeth y llywodraeth sy'n cynnal cofrestr perchnogaeth eiddo yng Nghymru a Lloegr yw Cofrestrfa Tir EF. Os yw eich eiddo'n gofrestredig, bydd sicrhau y gallwn gysylltu â chi yn eich gwarchod yn well rhag twyllwyr.

# Beth yw twyll eiddo?

Gall twyll eiddo ddigwydd mewn llawer o ffyrdd. Gall twyllwyr geisio cael gafael ar berchnogaeth eiddo naill ai trwy ddefnyddio dogfen ffug i'w drosglwyddo i'w henwau neu drwy ddynwared y perchennog cofrestredig. Unwaith y byddant wedi codi arian trwy forgeisio'r eiddo heb yn wybod i'r perchennog, byddant yn diflannu heb wneud taliadau gan adael y perchennog i wynebu'r canlyniadau.

# Pwy sydd mewn perygl?

Yn arbennig, gallai twyllwyr dargedu eiddo:

- sy'n eiddo i landlord, megis perchennog prynu-i-osod neu ddatblygwr eiddo
- lle y mae'r perchennog yn byw yn rhywle arall ar gyfer y flwyddyn gyfan neu ran ohoni
- lle y mae'r perchennog mewn gofal preswyl dros dro neu dymor hir
- lle y mae'r perchennog wedi marw ac mae'r eiddo'n cael ei ddal ar ymddiried
- lle nad oes morgais mwyach.

# Beth mae Cofrestrfa Tir EF yn ei wneud i leihau'r risg o dwyll eiddo?

Fel rhan o'n strategaeth gwrthdwyll eang, rydym wedi rhoi mesurau ar waith i leihau'r risg o dwyll eiddo. Cedwir y mesurau hyn yn gyfrinachol er mwyn sicrhau diogelwch a chânt eu hadolygu'n barhaus. O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn yn cyflwyno gwiriadau ychwanegol i roi diogelwch ychwanegol. Rydym yn gweithio'n agos â'r heddlu ac asiantaethau eraill i leihau'r risg o dwyll eiddo.

# Beth allwch chi ei wneud i helpu i warchod eich eiddo rhag twyll?

**Y peth pwysicaf yw sicrhau y gall Cofrestrfa Tir EF gysylltu â chi, lle bynnag y byddwch yn byw**
Mae hyn yn golygu rhoi eich cyfeiriad cyswllt cyfredol i ni (yr hyn a alwn eich 'cyfeiriad ar gyfer gohebu') a sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i ni pan fydd yn newid.

Mae hyn oherwydd y gallai fod angen i ni ysgrifennu atoch pan gawn gais sy'n ymwneud â'ch eiddo. Os na fydd gennym gyfeiriad cyswllt cyfredol ar eich cyfer, efallai na fyddwch yn cael y wybodaeth bwysig hon gennym.

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn cofnodi cyfeiriad ar gyfer gohebu yn y gofrestr sy'n cydymffurfio â ffynonellau swyddogol megis y Post Brenhinol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei hanfon yn gyflym ac yn gywir.

Ar gyfer tawelwch meddwl, gallwn ddal hyd at dri chyfeiriad cyswllt ar eich cyfer, yn cynnwys cyfeiriad ebost a chyfeiriad tramor.

Gallwch ddiweddaru eich manylion cyswllt am ddim.

# Sut mae diweddaru fy nghyfeiriad cyswllt?

Y cwbl sy'n rhaid i chi ei wneud yw llenwi'r ffurflen ar ddiwedd y daflen hon. Gellir ei defnyddio i wneud yn siwr bod y manylion cyswllt sydd gennym yn gywir, neu i'w diweddaru.

Ar ôl ichi lenwi'r ffurflen, gallwch ei hanfon i
Citizen Centre
PO Box 74
Gloucester
GL14 9BB

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o hunaniaeth pan fyddwch yn dychwelyd eich ffurflen. Bydd yr hyn sydd ei angen arnoch yn dibynnu ar bwy ydych ac a ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall.

Gweler trosodd am fanylion pellach

**Cofrestrwch eich teitl**
Os nad yw'ch eiddo'n gofrestredig, efallai yr hoffech ystyried gwneud cais i'w gofrestru. Mae cofrestru'ch teitl gyda ni yn helpu i ddiogelu perchnogaeth eich eiddo, gan roi'r warchodaeth orau bosibl i chi.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan **www.gov.uk/land-registry.cy**, cysylltwch â ni ar **0300 006 0422** neu anfonwch ebost i **customersupport@landregistry.gov.uk**

**Gwiriwch eich tenantiaid a'ch eiddo yn drylwyr**
Os ydych yn landlord, mae'n syniad da i chi neu eich asiant gosod gadarnhau gwir hunaniaeth tenant trwy gyflawni gwiriadau hunaniaeth ychwanegol.

Os yw eich eiddo yn wag, dylech ei archwilio o bryd i'w gilydd i wylio rhag mynediad heb awdurdod.

# Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer llenwi'r ffurflen atodedig

**Rhaid i chi ddarparu:**
— llun maint pasbort a dynnwyd yn ystod y tri mis diwethaf
— eich dyddiad geni
— hyd y cyfnod rydych wedi byw yn eich cyfeiriad presennol
— unrhyw gyfeiriad arall rydych wedi byw ynddo yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

**Mae angen llungopi arnom hefyd o naill ai:**
— un eitem o Restr A isod neu
— dwy eitem o Restr B ond dim mwy nag un o bob math.

**Rhestr A**
— tudalen biodata pasbort llawn dilys presennol (h.y. y dudalen sy'n dangos rhif y pasbort, dyddiad dirwyn i ben, ffotograff ac ati) neu
— trwydded yrru gyda llun cyfredol y Deyrnas Unedig, UE, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel (nid trwydded dros dro).

**Rhestr B**
**Rhaid** i'r dogfennau canlynol fod **yn rhai a dderbynnir trwy'r post**, yn hytrach na rhai electronig. Rhaid iddynt fod **mewn perthynas â'r eiddo** rydych yn gwneud cais i newid y cyfeiriad cyswllt a **dangos eich cyfeiriad presennol neu gyfeiriad newydd** rydych yn gwneud cais i'w ychwanegu at y gofrestr:
— bil cyfleustod llai na thri mis oed.
— bil treth gyngor ar gyfer y flwyddyn bresennol.
— datganiad morgais ar gyfer y flwyddyn cyfrifo morgais a ddaeth i ben.

Os ydych yn **gwneud cais ar ran rhywun arall**, megis perthynas, bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth hon ar eich cyfer chi. Os ydych yn anfon dwy eitem o **Restr B** rhaid iddynt ddangos eich **cyfeiriad eich hun.**

Nid oes angen i chi ddarparu tystiolaeth o hunaniaeth ar gyfer y bobl rydych yn gweithredu ar eu rhan. Fodd bynnag, rhaid i chi ei wneud yn glir ar ran pwy rydych yn gweithredu.

Ni chaiff eich cais ei dderbyn oni bai:
— bod y bobl rydych yn gweithredu ar eu rhan wedi llofnodi adran 4 o'r ffurflen ar gefn y daflen hon, neu
— rydych wedi darparu tystiolaeth ddogfennol ar gyfer pob un sy'n dangos fod gennych hawl i weithredu ar eu rhan. Gallai hyn fod yn gydsyniad ysgrifenedig wedi'i lofnodi, neu ryw fath arall o dystiolaeth ddogfennol megis pŵer atwrnai neu orchymyn llys.

Os ydych yn **unigolyn sy'n cynrychioli corff corfforaethol**, h.y. os yw eich eiddo wedi'i gofrestru yn enw cwmni cyfyngedig, bydd angen i chi gyflwyno ffurflen *ID2 Tystysgrif hunaniaeth corff corfforedig* wedi ei llenwi fel tystiolaeth o'ch hunaniaeth ac awdurdod i gynrychioli'r cwmni. Gweler *Llenwi ffurflenni 1D1 and 1D2*, sydd ar gael yn **www.gov.uk** am ragor o wybodaeth am sut i wneud hyn.

Os cewch anawsterau wrth ddarparu'r wybodaeth uchod, ffoniwch **0300 006 0422** i drafod a fyddai trefniadau eraill yn bosibl, neu anfonwch ebost i **customersupport@ landregistry.gov.uk**

**Diogelu data**
Gall Cofrestrfa Tir EF rannu, gwirio a chadarnhau'r wybodaeth uchod rydych yn ei darparu gydag:
— adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth
— asiantaethau gorfodi'r gyfraith
— sefydliadau a chyrff perthnasol eraill

a chael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â chi o gronfeydd data'r sefydliadau a'r cyrff a enwir uchod, at ddibenion cadarnhau.

Trwy ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y daflen hon, byddwch yn nodi eich cydsyniad i Gofrestrfa Tir EF brosesu eich gwybodaeth yn y ffordd hon.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y polisi preifatrwydd hwn, anfonwch ebost i **dataprotection@ landregistry.gov.uk**

I gael rhagor o wybodaeth am dwyll eiddo a'r hyn y gallwch ei wneud i ddiogelu'ch eiddo, ewch i **www.gov.uk/propertyfraud**

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ffurfiau gwahanol trwy gais. Os oes angen ffurf arall arnoch, ffoniwch ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar **0300 006 0422**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch newid cyfeiriad neu unrhyw fater arall, ffoniwch **0300 006 0422**.

# Cofrestrfa Tir EF
## Diweddaru cyfeiriad cyswllt perchnogion cofrestredig

# COG1

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**

Rhaid i chi, y ceisydd, fod yn un o berchnogion cofrestredig yr eiddo y mae ei gyfeiriad yn cael ei ddiweddaru neu weithredu ar ran y perchnogion hynny. Os ydych yn gwneud cais ar ran perchennog cofrestredig, mae'n ofynnol i'r perchennog cofrestredig lofnodi adran 4 oni bai eich bod hefyd yn cyflwyno tystiolaeth o'ch awdurdod i weithredu ar ei ran, megis pŵer atwrnai neu orchymyn llys, ac os felly, rhaid i chi lofnodi adran 4. Ym mhob achos, rhaid i chi, y ceisydd, lofnodi adran 5. Mae'r ffurflen hon yn gymwys ar gyfer diweddaru cyfeiriad y perchennog/perchnogion cofrestredig yn unig. Nid oes modd diweddaru cyfeiriad perchennog ymadawedig.

Dychwelwch y ffurflen hon i:
Citizen Centre
PO Box 74
Gloucester
GL14 9BB

Gall Cofrestrfa Tir EF rannu, gwirio a chadarnhau'r wybodaeth rydych yn ei darparu gydag:

- adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth
- asiantaethau gorfodi'r gyfraith
- sefydliadau a chyrff perthnasol eraill a chael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â chi o gronfeydd data'r sefydliadau a'r cyrff a enwir uchod, at ddibenion cadarnhau, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

Trwy ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen hon, byddwch yn nodi eich cydsyniad i Gofrestrfa Tir EF brosesu eich gwybodaeth yn y ffordd hon.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y polisi preifatrwydd hwn, anfonwch ebost i dataprotection@landregistry.gov.uk

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

**A yw'r ffurflen hon yn agored i'r cyhoedd ei harchwilio?**
Mae'r ffurflen hon yn agored i'w harchwilio ac eithrio tystiolaeth hunaniaeth, gan gynnwys y dyddiad geni a'r llun, sydd wedi eu heithrio o hawl y cyhoedd i archwilio trwy Reol 133 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

## 1 Eich manylion

Enw llawn: ______

Dyddiad geni: DD / MM / BB

Eich cyfeiriad presennol (Dyma'r cyfeiriad y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer dychwelyd y cais wedi ei gwblhau)

______

______

______

______

Cod post: ______

Rhif ffôn (Os oes gennym ymholiad am eich cais mae'n bosibl y byddwn yn eich ffonio ar y rhif hwn rhwng 9am a 5pm yn ystod yr wythnos yn unig)

Llinell dir: ______

Symudol: ______

Atodwch lun yma

Atodwch lun dull pasbort sy'n **llai na thri mis** oed yn y blwch a ddarparwyd.

**Rhaid i'r llun:**

- fod mewn lliw llawn
- dangos eich wyneb cyfan, a
- chael ei argraffu ar bapur llun – nid papur cyffredin.
- Nid yw delweddau wedi eu sganio a llungopïau yn dderbyniol.

Os oes angen cymorth neu wybodaeth bellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen hon ffoniwch **0300 006 0422.**

Rhestrwch **bob** cyfeiriad rydych wedi byw ynddo yn ystod y **5 mlynedd** diwethaf, ynghyd â dyddiadau, **gan ddechrau gyda'ch cyfeiriad presennol.**

| Cyfeiriad | Cod post | O<br>MM/BB | I<br>MM/BB |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 2 Eiddo

Nodwch gyfeiriad llawn a chod post **yr eiddo rydych am ei ddiweddaru**. Os ydych am ddiweddaru eich cyfeiriad ar fwy nag un eiddo, atodwch daflen ar wahân.

Cod post

Sylwer: os nad oes gan yr eiddo gyfeiriad post llawn a chod post (e.e. "tir yn…") rhowch y rhif teitl er mwyn inni allu dod o hyd i'r tir.

Rhif teitl:

## 3 Tystiolaeth o'ch hunaniaeth

**Unigolion preifat:**

Amgaeaf:

**naill ai**

☐ copi o un ddogfen o Restr A

**neu**

☐ copïau o ddwy ddogfen o Restr B ond dim mwy nag un o bob math.

**Peidiwch ag anfon y gwreiddiol**

Rhestr A

— Tudalen biodata pasbort (y dudalen sydd â'ch llun arni)
— Trwydded yrru gyda llun cyfredol y Deyrnas Unedig, UE, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel (nid trwydded dros dro)

(Rhaid i unrhyw ddogfennau nad ydynt yn Gymraeg neu Saesneg gynnwys cyfieithiad wedi ei gadarnhau)

Rhestr B

Mae'r rhain yn ymwneud â'r eiddo yn adran 2. Fodd bynnag, os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall, megis perthynas, bydd yn rhaid ichi ddarparu'r wybodaeth hon ar eich cyfer chi h.y. rhaid iddynt ddangos eich enw a'ch cyfeiriad chi. Rhaid i'r dogfennau fod yn rhai a dderbynnir trwy'r post yn hytrach na rhai electronig.

— Bil cyfleustod llai na thri mis oed (nid yw biliau'r rhyngrwyd yn dderbyniol)
— Bil treth gyngor ar gyfer y flwyddyn bresennol
— Datganiad morgais ar gyfer y flwyddyn cyfrifo morgais a ddaeth i ben

**Cyrff corfforaethol:**

☐ Amgaeaf ffurflen ID2 wedi ei llenwi ac wedi ei chadarnhau ynghyd â'r ffurflen hon y mae'n rhaid iddi gael ei llenwi gan gynrychiolydd y cwmni.

# 4 Y cyfeiriadau rydych am eu cofnodi ar y gofrestr

Rhestrwch (mewn unrhyw drefn) holl berchnogion cofrestredig yr eiddo a nodir yn adran 2 sy'n gwneud cais i newid/cadarnhau eu cyfeiriad ar gyfer gohebu a rhowch y cyfeiriadau yr hoffent inni eu defnyddio ar gyfer anfon gohebiaeth. **Rhaid i bob perchennog cofrestredig sydd am ddiweddaru ei fanylion cysylltu lenwi a llofnodi yn erbyn ei gyfeiriadau.**
Gallwch gael hyd at **dri** chyfeiriad ar gyfer pob perchennog cofrestredig. **Rhaid i un fod yn gyfeiriad post (nodwch god post os yw ar gael),** ond nid oes yn rhaid iddo fod yn y DU. Gallwch gynnwys cyfeiriadau ebost hefyd. **Ysgrifennwch yn eglur os gwelwch yn dda**. Ni allwch gofnodi rhif ffôn ar y gofrestr.

**Os ydych yn gwneud cais ar ran corff corfforaethol, dylid nodi enw a manylion cysylltu newydd y corff corfforaethol a dylai cynrychiolydd y corff corfforaethol ei lofnodi.**

Rwyf/Rydym yn awdurdodi Cofrestrfa Tir EF i wirio'r gofrestr ac, os oes angen, ei diweddaru i ddangos y cyfeiriadau canlynol.

Sylwch os gwelwch yn dda:
1 Caiff yr holl fanylion cyswllt presennol eu dileu a gosodir y wybodaeth a ddarperir yn yr adran hon yn eu lle.
2 Mae'r gofrestr yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd.
3 Os ydych yn gwneud cais i newid eich manylion cyswllt, byddwn yn anfon llythyr i'ch hen gyfeiriad i wneud yn siwr bod y cais yn ddilys. Rydym yn gwneud hyn er mwyn diogelu rhag twyll.

**Perchennog cofrestredig 1**

Enw llawn mewn prif lythrennau:

Cyfeiriad cyswllt cyntaf:
*Rhaid iddo fod yn gyfeiriad post*

Cod post (os yw'n gymwys):

Ail gyfeiriad cyswllt:
*Gall fod yn gyfeiriad post neu ebost*

Cod post (os yw'n gymwys):

Trydydd cyfeiriad cyswllt:
*Gall fod yn gyfeiriad post neu ebost*

Cod post (os yw'n gymwys):

**Llofnod:** Llofnodwch yma

## 4 Y cyfeiriadau rydych am eu cofnodi ar y gofrestr (parhad)

**Perchennog cofrestredig 2**

Enw llawn mewn prif lythrennau:

Cyfeiriad cyswllt cyntaf:
*Rhaid iddo fod yn gyfeiriad post*

Cod post (os yw'n gymwys):

Ail gyfeiriad cyswllt:
*Gall fod yn gyfeiriad post neu ebost*

Cod post (os yw'n gymwys):

Trydydd cyfeiriad cyswllt:
*Gall fod yn gyfeiriad post neu ebost*

Cod post (os yw'n gymwys):

**Llofnod:** Llofnodwch yma

# 4 Y cyfeiriadau rydych am eu cofnodi ar y gofrestr (parhad)

**Perchennog cofrestredig 3**

Enw llawn mewn prif lythrennau:

Cyfeiriad cyswllt cyntaf:
*Rhaid iddo fod yn gyfeiriad post*

Cod post (os yw'n gymwys):

Ail gyfeiriad cyswllt:
*Gall fod yn gyfeiriad post neu ebost*

Cod post (os yw'n gymwys):

Trydydd cyfeiriad cyswllt:
*Gall fod yn gyfeiriad post neu ebost*

Cod post (os yw'n gymwys):

**Llofnod:** Llofnodwch yma

# 4 Y cyfeiriadau rydych am eu cofnodi ar y gofrestr (parhad)

**Perchennog cofrestredig 4**

Enw llawn mewn prif lythrennau:

Cyfeiriad cyswllt cyntaf:
*Rhaid iddo fod yn gyfeiriad post*

Cod post (os yw'n gymwys):

Ail gyfeiriad cyswllt:
*Gall fod yn gyfeiriad post neu ebost*

Cod post (os yw'n gymwys):

Trydydd cyfeiriad cyswllt:
*Gall fod yn gyfeiriad post neu ebost*

Cod post (os yw'n gymwys):

**Llofnod:** Llofnodwch yma

# 5 Cyfeiriad y ceisydd a enwir yn adran 1

**Rwy'n tystio bod y wybodaeth uchod yn wir**

Llofnod: Dyddiad:

**Rhybudd: Gall peidio â llenwi pob adran o'r ffurflen hon olygu bod y cais yn cael ei ddychwelyd atoch.**

**Gwnewch yn siwr fod adran 4 hefyd yn cael ei llofnodi gan berchnogion cofrestredig sy'n newid eu cyfeiriadau ar y gofrestr.**

# Rhestr wirio – Ceisiadau i ddiweddaru cyfeiriad cysylltu perchnogion cofrestredig

**Gwnewch yn siwr eich bod wedi cwblhau neu ystyried pob un o'r pwyntiau hyn a'ch bod yn amgáu neu'n atodi'r holl wybodaeth berthnasol cyn anfon eich cais atom.**

Rwyf wedi:

- ☐ cwblhau unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt wedi eu teipio mewn **inc du** ac mewn **prif lythrennau, heblaw cyfeiriadau ebost, sy'n sensitif i faint llythrennau**.
- ☐ atodi llun dull pasbort yn adran 1, gan sicrhau ei fod yn **llai na 3 mis oed**
- ☐ rhestru ar ben tudalen 2, **fy nghyfeiriad presennol ac unrhyw gyfeiriadau blaenorol, os yw'n gymwys**, rwyf wedi byw ynddynt yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, ac wedi cynnwys y dyddiadau y bûm yn byw ymhob eiddo
- ☐ cwblhau adran 2 gyda chyfeiriad llawn yr eiddo cofrestredig rwyf am ei ddiweddaru gyda fy manylion cysylltu
- ☐ amgáu tystiolaeth o'm hunaniaeth – amgaeaf gopi o un eitem o Restr A **neu** ddwy eitem o restr B. Sylwer: os ydych yn cyflwyno tystiolaeth Rhestr B, dylai fod yn berthnasol i'r eiddo cofrestredig rydych am ei ddiweddaru ac **nid eich cyfeiriad cyfredol**
- ☐ cwblhau adran 4 gydag enwau llawn a hyd at 3 chyfeiriad ar gyfer pob perchennog cofrestredig sydd am ddiweddaru ei fanylion cysylltu. **Ar gyfer cyfeiriad ebost, rwyf wedi cofnodi llythrennau unigol sy'n ddarllenadwy**<br>Sylwer: rhaid i bob perchennog cofrestredig lofnodi adran 4 o dan y newidiadau i'r cyfeiriadau cysylltu y gwneir cais amdanynt
- ☐ fel y ceisydd a enwir yn adran 1, rwyf wedi llofnodi a dyddio'r dystysgrif yn adran 5.